## Gweddi ar Sul y Pasg

Arglwydd Gobaith, mewn dyddiau pan yw'n hawdd i ni fel Cymry gwyno a beirniadu ein gilydd, helpa ni Gristnogion i ddal i obeithio, yn arbennig ar Sul y Pasg. Pan fyddwn ni'n digalonni, yn gweld pwerau'r Drwg yn herio'r Da, yn gweld y cryf yn bychanu'r gwan, helpa ni yn ein haddoliad i gofio yn gyson mai Ti, O Dduw, sydd yn llywodraethu arnom ni, ac nid neb arall. Ti gynlluniodd y byd, Ti sy'n ei gynnal yn ei amrywiaeth, Ti biau'r gair olaf dros yr hyn sy'n digwydd o'n cwmpas ac ymhell oddi wrthym. Pa mor llwyddiannus a chryf bynnag yw'r drwg heddiw, gwyddom fod y dydd hwn yn cyhoeddi mai daioni a chariad sydd drechaf ar Galfaria ac yn y Bedd gwag. Canys eiddot Ti yw'r deyrnas a'r gallu a'r gogoniant yn oes oesoedd yn ein hanes ni oll, yr eglwys a'i haelodau.

Arglwydd Cariad, a'n carodd ni cyn ein geni, ac sy'n dal i'n caru ni bob munud o'n hoes, gwna i ni ryfeddu at y fath gariad a roddaist arnom. Mewn byd lle mae cariad yn ymddangos yn rhyfedd o brin, a chasineb a thrais a dinistr i'w brofi a'i weld mor amlwg, yr wyt ti, Dad y trugareddau, wedi ein caru er ein gwaethaf ac yn ein gwaethaf. Gogoniant byth i Ti am farwolaeth achubol dy Fab Iesu ar y Groes, lle y dangosaist yn derfynol dy gariad anfeidrol at blant dynion. Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw, ond cael bywyd tragwyddol. Oherwydd nid i gondemnio'r byd yr anfonodd Duw ei Fab i'r byd, ond er mwyn i'r byd gael ei achub trwyddo ef.

Helpa ni i'th garu Di yn ôl, ac o'th garu Di, i garu'n gilydd, a charu pawb. A boed i eraill trwom ni adnabod cariad Duw. Duw, cariad yw. Gofynnwn hyn yn enw ardderchog ein Gwaredwr Iesu Grist. Amen.